# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mai 2020

Amser: 14.03 - 16.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6096

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Tystion: | Sarah Crawley, Barnardo's Cymru<br>Vivienne Laing, NSPCC Cymru<br>Louise Israel, Childline Cymru<br>Marian Parry Hughes, Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan<br>Sally Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - Cyngor Dinas Casnewydd<br>Craig McLeod, Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu - Cyngor Sir y Fflint<br>Jan Coles, Pennaeth Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Powys<br>Jane Randell, Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| | Craig McLeod, Cyngor Sir y Fflint |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei chyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Dawn Bowden yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth ynghylch effaith Covid-19 ar blant sy'n agored i niwed gyda chynrychiolwyr y trydydd sector a staff rheng flaen

2.2 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan NSPCC Cymru, Barnardo’s a Childline.

2.3 Cytunodd NSPCC Cymru i ddarparu rhagor o fanylion am y tueddiadau o ran galwadau i’r llinell gymorth.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod heddiw yn ystod eitem 4

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 5 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth ynghylch effaith Covid-19 ar blant agored i niwed gyda phenaethiaid gwasanaethau plant a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan benaethiaid gwasanaethau plant a’r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

5.2 Cytunodd y penaethiaid gwasanaethau plant i ddarparu rhagor o wybodaeth am y cyswllt rheolaidd rhwng awdurdodau lleol a phlant a phobl ifanc yn eu hardaloedd.

## 6 Papur i’w nodi

6.1 Cafodd y papur ei nodi.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiwn flaenorol.

8.2 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y canlynol:

- i gael gweld y data a gyflwynir gan y gwasanaethau plant i Lywodraeth Cymru yn wythnosol; a

- rhagor o fanylion am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod plant nad yw'r gwasanaethau'n ymwybodol ohonynt ond sy'n agored i niwed, neu o bosibl yn agored i niwed, yn cael gwybodaeth am y ffyrdd gorau o gael mynediad at gymorth.